Adroddiad Cyfarfod 08:05:19
Noson elusennol – Ffasiwn Steil!

Yng nghyfarfod y gangen nos Fercher yr 8fed o Fai cafwyd sioe ffasiwn na fu erioed ei gwell. Fel yr esboniodd Gwenan ein llywydd y cynllun oedd i 5 o'r aelodau ynghyd a 5 aelod arall fel 'ymgynghorwyr' wario £10 y cwpl mewn siop elusen ar ddillad o'u dewis. Yn wir syfrdanwyd bawb gan grandrwydd Falmai, Nora, Jen, Cecile a Mair R. a phenderfynodd y beirniaid – Meirwen Lloyd y llywydd Cenedlaethol ac Anne Elis yr ysgrifennydd Cenedlaethol bod bob un yn haeddu sash aur am eu dillad defnyddiol, lliwgar, deniadol, oedd yn bendant yn fargen am y pris.

Roedd Falmai a Nan hefyd wedi trefnu bod diod ysgafn a manion bys a bwyd i'w cael i'r gynulleidfa flasu, a diolch i Alys a Delyth am ofalu am y paned.

Llongyfarchiadau mawr i'r tim Bowlio 10 ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth Ranbarthol yn Glasfryn ddiwedd Ebrill.

Bydd ein trip pentymor ddydd Sadwrn Mehefin y 15fed i Betws y Coed ac Ysbyty Ifan gyda'r bws yn cychwyn o Cysegr am 11 y bore. Mae croeso mawr i unrhyw berson nad yw'n aelod ymuno gyda ni boed yn wŷr neu ffrindiau. Enwau os gwelwch yn dda i Gwenan (01248 671022) Cecile (1248 679928) neu Mair P.(01286672975).